

## Disgrifiad Rôl Gwirfoddolwr Mentor Cyfoed

**CYFRIFOL:** Andrew Smalley / Sian Francis  
**ADRAN:** Hosteli  
**LLEOLIAD:** Caernarfon neu Blaenau Ffestiniog  
**ORIAU:** I'w gadarnhau gyda'r rheolwr llinell o fis i fis yn ôl yr angen.

**Pwrpas y Rôl:** I wirfoddoli fel mentor cyfoed yn yr hosteli i annog a chefnogi pobl ifanc o ddydd i ddydd gan gynorthwyo'r gweithwyr.

**Rôl yn amodol ar wiriad DBS.**

### Prif ddyletswyddau:

- Cynorthwyo'r gweithwyr allweddol a cefnogol gyda thasgau dyddiol
- Cyfathrebu yn gyson gyda'r gweithwyr allweddol/cefnogol
- Rhannu unrhyw bryderon ynglŷn â defnyddwyr gwasanaeth a'r staff perthnasol
- I fod yn llais i'r bobl ifanc mewn cyfarfodydd e.e. grŵp ffocws, cyfarfod trigolion
- Bod yn glust i'r bobl ifanc wrth gadw'n broffesiynol a rhannu gwybodaeth pam angen yn ôl canllawiau cyfrinachedd.
- Annod a chefnogi pobl ifanc i:
  - Cael defnydd llawn o brosiectau a'r cynlluniau
  - i fynychu gweithgareddau a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gael
  - i ddatblygu a dysgu sgiliau newydd
  - i fod yn iach
  - i gyllidebu eu harian yn well
  - i goelio yn eu hunain a hyrwyddo hunan hyder
  - i gyrraedd eu llawn botensial

### Manteision o wirfoddoli

- I ddysgu a datblygu sgiliau drwy brofiad ymarferol
- Datblygiad a/neu hyfforddiant personol a phroffesiynol
- Y gallu i archwilio gwahanol fathau o gyfleoedd gwaith yn wirfoddol
- Cyfle i fynd allan, cael hwyl a chwrdd â phobl newydd.
- Profi heriau newydd
- Cefnogi eich cymuned leol - rhoi rhywbeth yn ôl, boddhad personol gan wybod eich bod wedi helpu eraill
- Cryfhau eich CV.

Tynnir eich sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd iawn, mewn rhai achosion, i ddiffinio'n fanwl beth yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol. Mae'n bosib y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd ond heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau

### MANYLION PERSON Gwirfoddolwr

|                                                                                                  |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Hanfodol</b>                                                                                  |
| Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig |
| Y gallu i ddelio gyda gwybodaeth sensitif a chyfrinachol                                         |
| Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm                                                |
| Yn hyblyg i weithio yn unol â gofynion y dyletswyddau sydd ynglŷn â'r rôl                        |
| Gyda dealltwriaeth o'r broblemau mae pobl ifanc yn eu hwynebu.                                   |
| Ddim yn agored i wasanaeth prawf                                                                 |

|                                                           |
|-----------------------------------------------------------|
| <b>Dymunol</b>                                            |
| Profiad o weithio gyda' helpu pobl ifanc                  |
| Yn gyn ddefnyddwr gisda                                   |
| Addysg a phrofiad perthnasol i'r rôl                      |
| Trwydded yrru llawn                                       |
| Wedi profi problemau – yn gallu perthnasu a'r bobl ifanc. |
|                                                           |

### LLWYBR GWAITH

**Bydd cyfle i'r gwirfoddolwr gwblhau'r hyfforddiant isod. Yn ddibynnol ar ymrwymiad y gwirfoddolwr gan ddeall mewn rhai achosion ni fydd gwirfoddolwyr yn gallu cwblhau pob rhan.**

Gwiriad DBS

Anwythiad y cwmni - Lyndsey Thomas

Anwythiad yr hosteli - Andrew Smalley/Sian Francis

Ffiniau personol a proffesiynol - Andrew Smalley/Sian Francis

Iechyd a Diogelwch

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Cyfrinachedd

Datblygiad pobl ifanc a phlant mewn iechyd a gofal

Amddiffyn plant

Achrediad Sgiliau Mentor Cyfoed